

Sustainability Committee

SC(3)-22-08 (p5)

Ymchwiliad i Leihau Allyriadau Carbon yng Nghymru : Tystiolaeth ar Gynhyrchu Ynni gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

Astudiaeth Dichonoldeb Pŵer Llanw Aber Hafren

Cyflwyniad

Mae Moryd Hafren gydag un o'r amrediadau llanw uchaf yn y byd. Edrychwyd yn fanwl i'r syniad o gynhyrchu trydan o'r tarddiad anferth, dibynadwy hwn am y tro cyntaf yn ystod yr 1970au a'r '80au. Mae diddordeb llywodraethol newydd yn y tarddiad dichonol hwn heddiw er mwyn darparu cyflenwad glan a diogel o drydan. Bydd yn helpu'r llywodraeth i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac i gyflawni ein hymrwymiaidau i gynhyrchu mwy o drydan adnewyddol.

Ynghylch â'r Foryd

Moryd Hafren yw'r ail fwyaf ym Mhrydain. Mae'n 55,700ha gan gynnwys 20,000ha o gynefin rhynglanwol ac amrediad llanw o 14.5. Mae'r Hafren, a'i 10 is-foryd yn cynrychioli tua siath y cant o'r holl adnodd moryd y DU. Ei amgylchedd

Mae Moryd Hafren yn gyswllt hanfodol mewn llwybrau adar mudo rhwng Affrica a Siberia. Yn aml, mae dros 60,000 o adar gwyllt yn gaeafu yno, gan gynnwys 50 y cant o boblogaeth Prydain o wyddau brest-wen, 10% o bifyddion a 5% o nifer eraill o rywogaethau.

Mae 25 y cant o ardal silio eogiaid yn yr afonydd sy'n rhedeg i mewn i Foryd Hafren. Yr Wy yw un o'r afonydd pwysicaf ar gyfer hyn yng Nghymru a Lloeger ar gyfer hyn. O'r bedair afon yn y DU sy'n cynnal poblogaethau silio gwangen, mae tri (yr Hafren, Gwy ar Wysg) yn rhedeg i mewn i'r moryd. Mae'r moryd a'i llednentydd hefyd yn cynnal poblogaethau rhyngwladol bwysig o llyswenod, lamprai.

Yr Astudiaeth Dichonoldeb

Ddydd Mawrth yr 22ain o Ionawr 2008 cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ac adran Menter Busnes a Diwygio Rheoliadol (MBDRh) y Llywodraeth gylch dyletswydd yr astudiaeth dichonoldeb i bŵer llanw Aber Hafren. Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn cefnogi'r astudiaeth ac yn cyfrannu ati. Rydym yn cyfrannu at yr astudiaeth trwy ymgysylltu â phob gweithgor perthnasol ac eistedd ar Grŵp Llywio' Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS).

Bydd yr astudiaeth dichonoldeb yn:

asesu'n fras gostau, buddion, ac effaith cynllun cynhyrchu pŵer o rychwant llanwol Aber Hafren, gan gynnwys effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol, rhanbarthol, economaidd, a marchnad ynni;

pennu cynllun rychwant llanwol dewisach unigol (a allai fod yn dechnoleg/fan unigol neu'n gyfuniad ohonynt) o'r nifer o ddewisiadau a gynigiwyd;

ystyried pa gamau y gallai'r Llywodraeth eu gweithredu er mwyn cyflwyno cynllun sy'n diwallu gofynion rheoliadol, a beth sydd angen ei wneud er mwyn cyflawni hyn;

penderfynu, yng nghyd-destun nodau ynni a newid yn yr hinsawdd y Llywodraeth a dulliau eraill eu cyrraedd, ac wedi ymgynghori â'r cyhoedd, a allai'r Llywodraeth gefnogi cynllun pŵer llanw yn Aber Hafren, ac ar ba delerau.

Disgwylir i'r astudiaeth, a fydd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol, barhau tua dwy flynedd, gan ddod i ben ag ymgynghoriad cyhoeddus ddechrau 2010. Penderfynir yn Rhagfyr 2008 a ddyliid symud ymlaen at ail gam y cynllun.

Ymateb Asiantaeth yr Amgylchedd

Croesawa Asiantaeth yr Amgylchedd astudiaeth dichonoldeb Ynni Llanw Aber Hafren, ac ymroddiad y Llywodraeth i asesiad economaidd ac amgylcheddol cyflawn, gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol.

Barnwn y bydd gan systemau ynni llanw, o'u cynllunio, eu lleoli a'u gweithredu'n addas ac a gofal, ran yng nghyflenwi ynni adnewyddadwy.

Cyfrannwn at yr astudiaeth dichonoldeb er mwyn canfod cynllun a all gynhyrchu ar y mwyaf o ynni cynaliadwy o Aber Hafren heb achosi difrod amgylcheddol annerbyniol.

A hithau'n gorff statudol, mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi ymroi i ymgysylltu'n adeiladol yn yr astudiaeth dichonoldeb, er mwyn sicrhau gwneud y gwaith yn drwyadl, yn arbennig yr asesu cost, effeithiau ar fywyd gwyllt, a chydymffurfiaeth â'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd a deddfwriaeth amgylcheddol arall.

Disgwyliwn i unrhyw hyrwyddwr wynebu materion cost, effeithiau ar fywyd gwyllt, a chydymffurfiaeth â'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd a deddfwriaeth amgylcheddol arall i raddau digonol. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn gefnogol iawn i ynni adnewyddadwy, ac i ymrwymiad y Llywodraeth i ostwng allyriadau CO₂ y DU gan o leiaf 80% erbyn 2050.

Hoffem weld rhagor o fuddsoddi mewn technolegau carbon-isel megis effeithlonrwydd ynni, adnewyddadyddion eraill, dal a storio carbon, a thechnoleg gwres a phŵer gyfun. · At ei gilydd, cred Asiantaeth yr Amgylchedd mai dull gorau gwarchod diogeled a chynaliadwyedd cyflenwad ynni'r DG yw amrywiaeth o ffynonellau tanwydd, yn enwedig defnyddio'r rhai sydd gennym o fewn cyrraedd.